Cyfres yr 26fed Ganrif

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 18. Rhif 7.] GORFFENAF, 1918. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

John Huss (1376–1415).
O Faes y Frwydr.—Parch. D. Cellan Evans.
Mewn Cymundeb a Natur.
Gwir Brydferthwch.
Arholiad Ysgolion Sul Sir Aberteifi, 1918.
J. R. Thomas, C.M.
Cymanfa Gerddorol Ceredigion.
Priodas.
Marwgofion.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

CASGLIAD

- O -

EMYNAU A THONAU

:: AT WASANAETH ::

Cymanfa Gerddorol Undodiaid Ceredigion.

Gellir cael yr uchod yn awr wedi ei rwymo fel y canlyn :—

Llian	2/-	Haner-rhwym	3/-
Llian eto (gwell)	2/6	Lledr	4/-

— O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL. —

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1918. [CYF. XVIII. RHIF 7.

JOHN HUSS (1376-1415).

(*Diwygiwr o flaen diwygiad mawr Luther.*)

MAE y rhyfel ofnadwy presennol wedi agor y drws i lawer man, ac wedi tynnu sylw at lawer gwlad a llawer person. Yn mhlith eraill y mae yr Almaen (neu Germani), prif achos y rhyfel, ac Awstria a Hungary. Talaeth o'r olaf yw Bohemia, cartref John Huss.

Cangen o'r Celtiaid oedd preswylwyr cyntaf Bohemia, mor bell ag y gŵyr hanes. Dywedir fod iaith preswylwyr presennol y wlad yn perthyn i'r dosparth Slafonaidd, a honno rhywbeth yn debyg i'r Groeg a'r Lladin. Ceir ynddi 42 o lythrennau. Ei phrif ddinas yw Prague, lle y sefydlwyd prifysgol, y gyntaf yn Ewrop, yn 1348. Mae y wlad yn gyfoethog o foddion cynhaliaeth—gwenith, haidd, ceirch, a digon o datws. Gwneir digon o siwgr o'r *beetroot* yr hwn sy'n tyfu yno. Ceir yno haiarn, glo, arian, *tin*, plwm, copr, &c., a pheth aur. Mae tri o bob pump o'r boblogaeth yn Czechiaid, a chanddynt eu hiaith a'u llenyddiaeth eu hunain. Perthyn y gweddill o'r bobl i'r Germaniaid, ac mae teimlad chwerw iawn rhyngddynt a'u gilydd.

Dygwyd Cristnogaeth i'r wlad yn y 9fed ganrif, ond ni ddarfu iddi dynnu fawr sylw hyd y 13eg. Daeth athrawiaethau John Wyckliff i'r wlad tua 1378, yn fuan wedi geni John Huss. Cafodd John Huss yr addysg ore posibl, a chawn ef yn brif ddyn yn mhlith darlithwyr prifysgol Prague yn 1396, ac yr oedd ei boblogrwydd yn fawr iawn. Yr oedd wedi cofleidio addysg Wyckliff, a tharanai efe a'i ganlynwyr yn ddibaid yn erbyn anfoesoldeb yr offeiriaid a'r gŵyr lleyg, ac yn neillduol yn erbyn gwerthiant swyddau eglwysig (Simoniaeth), trwy yr hyn yr oedd rhengoedd y clerigwyr wedi eu llanw ag aelodau anheilwng. Gwaith yn llawn perygl yw dynoethi pechod y clerigwyr. Profodd Wyckliff hynny, ac ni fu'r cwerylon eglwysig ddim yn boethach yn unman erioed nag yn Bohemia. Codwyd y pwnc o gollfarnu ysgrifeniadau Wyckliff i fyny, a derbyniwyd ef gyda brwdfrydedd gan y blaid ddiwygiadol yn mhlith yr offeiriaid, tra'r oedd dosparth

cryf arall yn awyddus i daflu pob rhwystr ar ffordd lledaeniad addysg Wyckliff. Yn y brifysgol yr oedd y cydymdeimlad yn gryfaf o blaid safle John Huss.

Yn 1409, ceisiwyd penderfynu'r pwnc drwy gymryd safle amhleidiol, a gwrthod ufudd-dod i'r awdurdodau Pabaidd. Rhaid edrych ar Huss fel y prif symudydd yn y mater pwysig hwn, ac yr oedd wedi ysgwyd ymaith ei wrthwynebwyr gyda llwyddiant anarferol. Dangosodd ei hunan yn neillduol hyf yn erbyn y prif offeiriad, ac yn enwedig yn erbyn yr Archesgob Zbynek o Prague. Yr oedd hwn wedi amddifadu yr offeiriaid o'u llyfrau Wycklyffaidd, a'u condemnio i gael eu llosgi. Gwrthodai Huss ufuddhau a chadwai'n mlaen yn pregethu yn mhwlpud Bethlehem, a chafodd ei esgymuno. Eto, yr oedd y bobl, y brifysgol, y llys, y frenhines Sophia, a'r brenin ei hunan o du Huss, tra nad oedd o du yr archesgob ond ei offeiriaid a'r Pab newydd, John XXIII. Bu Zbynek farw yn 1411, ac nid oedd ei olynydd oedranus ond twlsyn yn llaw'r brenin Wenzel.

O hyn allan aeth pethau o ddrwg i waeth. Penderfynodd Wenzel, am resymau gwladol i ochri gyda'r lleiafrif yn erbyn y diwygiad. Y canlyniad oedd carchariad a dienyddiad llawer. Pasiodd y Pab ddedfryd esgymuniad ar Huss yn 1412. Galwyd Cynghor yn Constans,* a gwysiwyd Huss i ymddangos yno. Cyn mynd addawyd *safe conduct* iddo gan yr Ymerawdwr ei hunan. Ar ei daith rhoddodd Huss rybuddion cyhoeddus fel y gallai ei elynion gwrdd ag ef yn Constans. Synwyd ef yn fawr gan y sylw a dalwyd iddo ar y ffordd. I bob tref lle'r elai derbyniwyd ef gyda banllefau o gymeradwyaeth. "Meddyliais," ebe fe, "fy mod yn alltud (*outcast*); a gwelaf yn awr fod fy ngelynion gwaethaf yn Bohemia."

Er gwaethaf yr addewid fe'i bwriwyd i garchar, ac ofer fu gwrthdystiad ei gyfeillion i gael ei ryddhad. Yr oedd y Pab ei hunan yn garcharor, ac yr oedd yr Ymerawdwr yn gaethwas i'w ofergoelion. Gwnaethpwyd carchariad Huss yn fwy gormesol. Dodwyd ef mewn ystafell afiach yn naeardy y tŵr. Hyd yn oed yma ni allasai fod yn segur. Wrth oleu pelydryn o oleuni a ddaethai trwy dwll bychan yn ei ddaeardy cyfansoddodd amryw draethodynau bychain, y rhai a aethent allan yn rhywfodd i Bohemia.

Yna cymrwyd ef yn glaf iawn. Ofnai ei elynion y diangai arnynt drwy borth marwolaeth, a phenderfynasant ffurfio penderfyniadau yn ei erbyn, a'i gondemnio yn y carchar. Cafodd ei elynion ef yn ei wely, neu o leiaf yr hyn a wnaethai yn lle gwely. Yr oedd golwg wael arno, yn welw a theneu. Ac ebe fe—"Chwi welwch fy nghyflwr. Ewch a dywedwch wrth fy nghyhuddwyr y fath yw fy nghyflwr.

---

*Dywedir fod dros ddeng mil ar hugain o geffylau yn Constans, oll yn perthyn i'r personau hynny oedd wedi dyfod i'r Gymanfa; a dim llai na chan mil o ddieithriaid yn y ddinas; ond oherwydd trefniadau doeth yr Ymerawdwr, ni ddigwyddodd dim anrhefn na anghyfleusdra oddiwrth y cynulliad mawr o ymwelwyr.

Dwedwch hefyd, os na chaniatant eiriolydd i mi i'm amddiffyn, ni fethaf, fel yr wyf, i ymddangos ger eu bron."

Daeth Huss rywbeth yn well, ond yr oedd dioddefiadau eraill yn ei aros. Danfonwyd ef i Gastell Gotleben, hwnt i'r Rhein, lle y gosodwyd llyffetheiriau arno, ac yn y nôs rhwymwyd ef mewn cadwynau wrth y llawr. Gobeithiai yr Ymerawdwr (yr hwn oedd yn awyddus i achub ei enw da, pe gallai wneud hynny yn gyson a'i ofergoelion) y gwnai ei ddioddefiadau ddarostwng ei yspryd ystyfnig; ond fe barhaodd Huss yn anhyblyg.

Ar ol llawer o oedi, a llawer o ragrith ac anwiredd, fe'i dygwyd ef i'w brawf cyhoeddus o flaen ei *gyhuddwyr* (nid oeddynt *Farnwyr* priodol) dair gwaith. Yn y diwedd dygwyd rhyw 40 o gyhuddiadau yn ei erbyn. Dyma rai—nad oedd eisieu pen gweledig i'r Eglwys; y llywodraethid yr Eglwys yn well yn amser yr apostolion heb un; ei bod yn amhriodol i roi'r teitl o sancteiddrwydd i ddyn; nad oedd posibl i Bab drwg fod yn Ficer Crist; fod rhyddid cydwybod yn hawlfraint naturiol pob dyn; nad oedd i geryddon eglwysyddol, yn enwedig rhai yn cyffwrdd a bywyd dyn, yr un sail yn yr ysgrythyrau; na ddylai esgymuniad rwystro'r offeiriaid i gyflawni ei ddyledswydd; fod pregethu yn ofynol oddi wrth weinidog crefydd yn llawn cymaint ag elusenau oddiwrth yr un a all eu gwneud; ac na ddylai'r naill na r llall guddio ei dalent yn y ddaear.

Fe'i condemniwyd i farw, yn y gobaith y gwnai ddadgyffesu. Ar ei ddydd diweddaf, syrthiodd yn glaf iawn drachefn, fel mai o'r braidd y gallai gerdded. Arweiniwyd ef o'r Cyngor i'r daeardy. Aeth ei gyfaill, y Barwn gydag ef, a dangosodd iddo bob tynerwch. Edrychai allan ar yr olygfa, a llefodd yn uchel, "Fy Nuw anwyl! dyma gyfeillgarwch yn wir." Brysiodd y ceidwaid i'w osod mewn cadwynau haiarn, ac ni chawsai neb ei weld.

Ysgrifennodd amryw lythyron. Dyma ran o un: "Fy nghyfeillion anwyl, gadewch i mi y cyfleusdra olaf hwn i'ch annog i beidio gosod eich ymddiried mewn dim yma, ond i roddi eich hunain i fyny yn llwyr i wasanaeth Duw. Awdurdodir fi i'ch rhybuddio i beidio ymddiried mewn tywysogion, nac yn unrhyw fab dyn, gan nad oes yr un help ynddynt hwy. Duw yn unig a bery yn ddiysgog. Yr hyn a addawa *efe*, efe a gyflawna. Wedi ceisio bod yn was ffyddlon nid wyf yn ofni y gedy efe fi. Duw'r nefoedd a'ch cadwo. Wrth bob tebyg, dyma fy llythyr diweddaf. Credaf y gelwir fi fory i ateb gyda fy mywyd. Mae Sigismund wedi ymddwyn yn dwyllodrus yn mhob peth. Maddeued Duw iddo!"

Y chweched o Orffenaf, sylwer, oedd dydd ei gondemniad. Dechreuwyd y dydd gyda phomp a rhodres anarferol. Daeth yr esgobion ac arglwyddi'r Cynghor yn nghyd. Cyfarfyddwyd yn eglwys fawr Constans—yr Ymerawdwr Sigismund yn y gadair. Pan oedd pawb wedi eistedd, dygwyd Huss i fewn. Yn nghanol yr eglwys yr oedd ysgaffald, gerllaw yr oedd bwrdd, ac arni yr oedd gwisg offeiriad Pabaidd.

Yn ngwydd y presenolion hyn traddodwyd pregeth, yn yr hon yr

anogwyd y gwrandawyr yn ddifrifol iawn *i dorri ymaith y dyn pechod.* Yna awd yn mlaen. Darllenwyd y cyhuddiadau yn uchel, y rhai a addefodd *yn ogystal* a'r rhai ni addefodd. Gwrthwynebai Huss y fath driniaeth yn fawr, a byddai'n falch er mwyn ei garitor i wneud gwahaniaeth; ond ofer fu'r cais; a phan ddywedodd y Cardinal o Cumbray, na chawsai gyfleusdra arall, distawodd; ac wedi syrthio ar ei liniau cyflwynodd ei achos i Grist.

Wedi adrodd y cyhuddiadau, yn ol y gofyn, darllenwyd y ddedfryd, rywbeth tebyg i hyn: Fod John Huss, disgybl i Wyckliff, o ddamniol goffadwriaeth, bywyd yr hwn a amddiffynnodd, athrawiaethau yr hwn a ddaliodd, wedi ei farnu gan Gyngor Constans (ei ddaliadau wedi eu condemnio cyn hynny) a'i gyhoeddi yn heretic ystyfnig; ac fel y cyfryw, i gael ei ddiraddio o'i swydd fel offeiriad, a'i dorri ymaith oddiwrth yr Eglwys Sanctaidd.

Wedi cyhoeddi'r ddedfryd felly, gorchmynwyd ef i osod y wisg offeiriadol am dano, ac esgyn yr ysgaffald, lle y gallai lefaru wrth y bobl; a gobeithid y caffai ras i dynnu ei gyfeiliornadau yn ol. Boddlonodd ei hunan gyda dweyd unwaith drachefn, na wyddai am ddim cyfeiliornadau oedd ganddo; nad oedd dim wedi ei brofi yn ei erbyn; ac na wnai niweidio'r athrawiaethau a bregethasid ganddo, trwy briodoli iddo ei hunan gyfeiliornadau, nad oedd wedi ei argyhoeddi o'u plegid.

Pan ddaeth i waered oddiar yr ysgaffald fe'i derbyniwyd gan saith o esgobion, y rhai a benodwyd i'w ddiraddio. Golygfa druenus ac anghristnogol iawn oedd. Ffurfiodd yr esgobion gylch oddiamgylch iddo, pob un o honynt yn cyhoeddi melldith arno, ac yn tynu ymaith ran o'i wisg. Ar ol diosg ei wisg offeiriadol aethant i ddileu ei donsur, yr hyn a wnaethant trwy ei docio i ffurf croes. Dywed rhai iddynt, wrth wneud hynny rwygo a llurgunio ei ben. Y peth diweddaf oedd ei addurno a chap papur mawr, ar yr hwn yr oedd lluniau dychryn-llyd o gythreuliaid wedi eu paentio. Y cap hwn osodwyd ar ei ben gan un o'r esgobion gyda'r geiriau anghristnogol hyn: "Trwy hwn yr ydym yn cyflwyno dy enaid i'r diafol." Gwenodd Huss a dywedodd, "ei fod yn llai poenus na choron o ddrain."

Pan oedd y diraddiad drosodd, cyflwynodd yr esgobion ef i'r Ymerawdwr. Yr oeddynt wedi gorffen yr oll a ganiateid gan yr eglwys. Yr oedd y gweddill yn llaw'r awdurdod wladol. Gorchmynodd Sigismund i'r Duc o Bavaria ei dderbyn, a rhoddodd hwnnw ef yn union yn llaw swyddog. Cafodd hwnnw orchymyn i weld ei fod yn cael ei losgi gyda phob peth a berthynai iddo.

Wrth borth yr Eglwys yr oedd gwarchodlu o 800 yn aros i'w arwain i le y dienyddiad. Cludwyd ef yn gyntaf at borth y palas esgobawl, lle'r oedd crug o goed ar dân. Llosgwyd ei lyfrau o flaen ei wyneb. Gwenai Huss ar y sarhad a fwriedid. Pan ddaeth at yr ystanc, caniatawyd iddo ychydig amser i weddio, yr hyn a wnaeth mewn modd mor fywiog fel y synnai'r gwyddfodolion, y rhai ddaethant yno yn llawn rhagfarn, ac a ddywedasant, "Ni wyddom ni beth

a ddywedodd y dyn hwn y tu fewn, ond yn sicr mae yn gweddio fel Cristion."

Pan yn parotoi at yr ystanc, gofynwyd iddo a garai gael cyffeswr? Atebodd y carai. Galwyd offeiriad. Yr amcan oedd cael ganddo dynnu yn ol, heb hynny, ebe'r offeiriad, ni feiddiaf ei gyffesu. "Os dyna eich penderfyniad, ebe Huss, "rhaid i mi farw heb gyffesiad. Hyderaf yn Nuw, nid oes genyf yr un pechod marwol i ateb am dano." Yna cylymwyd ef wrth yr ystanc â rhaffau gwlybion, a dodwyd cadwyn o amgylch ei gorff. Fel yr oedd y ffagodau yn cael eu pentyrru o amgylch iddo, daeth llef o'r dorf—"Trowch ef oddiwrth y dwyrain, trowch ef oddiwrth y dwyrain." Yr oedd megys llef o'r nefoedd. Gwelodd y dienyddwyr yr amhriodoldeb ar unwaith, neu yn hytrach halogrwydd yr hyn a wnaethid ganddynt, a rhoisant orchymyn i'w droi i'r gorllewin.

Cyn i'r tân gael ei ddwyn dyna'r Duc o Bavaria yn marchogaeth i fyny, ac yn ei annog unwaith eto i dynnu ei gyfeiliornadau yn ol, ac ebe yntau, eto yn gadarn—nid oes gennyf ddim i'w tynnu yn ol. Ceisiais bregethu Crist gyda symlrwydd apostolaidd, ac yn awr yr wyf yn barod i selio fy athrawiaeth a'm gwaed.

Cyneuwyd y ffagodau, cyflwynodd yntau ei hunan i ddwylaw Duw, a dechreuodd ganu emyn. Parhaodd i ganu hyd nes i'r gwynt chwythu'r fflam a'r mwg i'w wyneb. Am beth amser bu'n anweledig. Pan laesodd y tân gwelwyd ei gorff wedi ei hanner losgi ymaith yn hongian uwch y gadwyn. Ni allai ei elynion adael llonydd hyd yn nod i'w weddillion. Casglwyd hwy yn nghyd, a thaflwyd hwy i'r afon Rhein, fel na fyddai i'r ddaear deimlo llwyth y fath euogrwydd anferth. Felly y bu farw y dyn rhagorol hwn. Mae'n anhawdd dweyd am beth y dioddefodd.

Cadwyd y chweched o Orffenaf yn ddydd coffa am dano am flynyddau lawer yn mhlith y Bohemiaid. Cyfansoddwyd gwasanaeth priodol i'r dydd, a phenodwyd iddo gael ei ddarllen yn yr holl eglwysi, ac yn lle pregeth rhoddwyd anerchiad o gymeradwyaeth i'w merthyr, ac yn hwn gelwid i gof y sefyll cadarn a wnaeth yn erbyn gormes yr offeiriadaeth, ac enwid ef fel patrwm i'w ddilyn gan yr holl Gristnogion. Yn rhai mannau cyneuid tanau yn yr hwyr, ar y mynyddau i gynnal cof am ei ddioddefiadau. O gylch y tanau hyn ymgasglai pobl y wlad yn nghyd i ganu emynau er cof am dano.

C. R.

O FAES Y FRWYDR.

Elfen amlwg ym mywyd y bechgyn ar y cyfandir ydyw hiwmor. Yr oedd ymhob cwmni ryw fachgen ffraeth ei ddywediadau a'i atebion. Efe oedd arwr pob ymgom. Pan y buasai'r gwaith a'r dyledswyddau yn galed, yr oedd gair oddiwrth hwn yn eu hysgafnhau. Yr oedd un edrychiad ar hwn yn ddigon i wasgar y cymylau am y tro. Felly gwelid y bechgyn dan ddylanwad un o'r fath bob amser yn siriol a hapus.

Meddyliasom lawer tro wrth weld amgylchiadau fel hyn mai yng nghartrefi'r hen wlad yr oedd yr ornest galetaf wedi'r cyfan, ac mai ar yr aelwyd unig yno yr oedd y gawod dân yn disgyn drymaf.

Erys y syniad gyda ni gartref mai bywyd rhyfedd ac ofnadwy arweinia'r bechgyn yn Ffrainc—ac y mae felly ar ryw ystyr, ac ar adegau neillduol —eto fe'ch synnid pe'u gwelech, gan y ffaith eu bod mor debyg i'r hyn oeddynt gartref, gyda'r eithriad fod yno fwy o sirioldeb, ac fod pob un yn *byw mwy* mewn awr yno nag a wneir mewn hanner blwyddyn gartref. Eto, mae ansawdd y bywyd yr un fath, ond fod y gwerth wedi ei ddwyshau.

Mor fuan yr ymgynefina dyn ag ef. Wedi ychydig wythnosau ohono, mae popeth yn colli ei ddyddordeb i chwi. Mae *whistle* y *shell* uwchben yn dyfod yn beth mor gyffredin fel nad oes gennych amser i dalu llawer o sylw iddi, mwy na phe buasai'n *twitter* y robin goch yn y berth gartref. Cynefino a bywyd rhyfel? Ffaith ryfedd, onide? Eto, felly y mae; ac y mae hyn yn 'gompliment' mawr i'r natur ddynol, ac yn anfri ar ryfel.

Nid yw *machinery* rhyfel wedi medru lladd dynoliaeth y bechgyn. Dengys hyn fod dynoliaeth yn gryfach na rhyfel. Rhydd hyn i ni obaith am y dyfodol. Dengys i ni fod digon o nerth yng nghalon y ddynoliaeth i ysgwyd y plä hwn ymaith ryw "ddydd a ddaw."

Sylwasom ar ffaith arall sydd yn cadarnhau y gosodiad hwn. Ymron dan ffroenau tanllyd y magnelau yr oedd tyddynwyr bychain Ffrainc yn cario ymlaen alwedigaethau Heddwch. Yr oedd rhai'n yn ffynnu o hyd yn awyrgylch ddeifiol rhyfel.

Rhyfel yn difwyno'r tir – ond eto blodau tyner Heddwch fel pe yn mynnu dangos eu pennau yng nghanol y cyfan.

Clywsom swn magnelau yn rhuo—ond clywsom hefyd swn y cryman bach yn yr ŷd melynwawr. Meddyliasom am y Prophwyd y pryd hwnnw, yn sôn am "droi'r cleddyfau yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau," ac yr oedd y weledigaeth hon yn sisial rhywbeth am y dydd y deuai'r brophwydoliaeth i ben. Mae'r Gobaith Gwanwynol yn aros yn fyw yng nghalon y ddynoliaeth o hyd, ac ni chaiff ei siomi tra Duw yn Dduw a dyn yn ddyn.

Gwelsom greithiau rhyfel ar wyneb teg Ffrainc, ond mor garedig yw Duw! Mynai Ef anfon Ei wanwyn ffres i daenu ei laswellt tyner a'i flodau mân drostynt. Dyn yn dolurio, Duw yn iachau; dyn yn gwahanu, Duw yn cyfanu. Dysgwn y wers a chredwn y brophwydoliaeth.

. . . . .

Golygfa fyth-gofiadwy oedd gweled y *Mail* yn dyfod i fyny i'r ffrynt. Y rhan fynychaf, mewn *motor-lorry* y deuai'r llythyron a'r parseli gwerthfawr. Cludai hon serch a chariad yr hen wlad tuag at y bechgyn dewr, ac O! fel y gwerthfawrogent y rhinweddau hyn. Hyfryd oedd gweld dylanwad yr hen gartref yn para yn atyniadol o hyd. Yn fynych yr oedd rhywun o'r cwmni heb dderbyn llythyr na pharsel, a golygfa dipyn yn dorcalonus oedd hon; ond ar

yr ochr arall, yr oedd yna beth compensatio am hyn. 'Roedd pawb yn barod i rannu a'r brawd anffodus. Cyd-ofidio, cyd-lawenhau, cyd-ddwyn, cyd-fyw, a chyd-farw, os byddai angen, oedd Rheolau Euraidd y ffosydd. A ddywedwch fod Efengyl Crist yn *played out* yng ngwyneb hyn. Na, yn hytrach nid yw yn *played in* eto. Sut y byddai, debygwch, pe bai rhai o'r bechgyn yma yn cael eu gwneud yn aelodau seneddol, ac yn aelodau o'r *Cabinet* ar ddiwedd y rhyfel? Tybed a fyddai yna gymaint o ymgecru ynghylch materion dibwys wedyn? cymaint o syched am swyddi, a chymaint o sangu ar yddfau wrth geisio eu cyrhaedd? cymaint o elyniaethau personol ac o gnoi eu gilydd?

Credwn ambell waith fod yr *experiment* yn werth ei dreio, ond tebyg nad yw'r mwyafrif o'r un farn a mi. Felly rhaid aros hyd nes y daw.

(I'w barhau.)

D. CELLAN EVANS.

MEWN CYMUNDEB A NATUR.

Yn ddiweddar, bum ar ymweliad a thri lle, neu dair golygfa, pob un o'r rhai a'm harweiniasant hyd linellau neilltuol o feddwl, neu a adawsant argraffiadau arnaf tra gwahanol i'w gilydd. Y cyntaf oedd

GWAELOD BANNAU BRYCHEINIOG.

Rhwng y dref weithfaol fawr yr arhoswn ynddi a gwaelod y Bannau nid oes pellter mawr—rhyw wyth i ddeg milltir, efallai. Ond golyga'r pellter hwn, er mai bach ydyw, fod yr hwn a deithia drosto yn newid dau fyd—o swn y dref fawr i unigedd llethol natur. Aethum o'r dref tua'r mynyddau gyda'r gerbydres, i orsaf Tirpantau, y lle olaf a greodd Duw, yn ol un desgrifiad o hono. Ar ol myned o honof allan, a chael hamdden i daflu golwg dros yr amgylchoedd, dywedais, "Yn ddiamheuol, dyma'r lle unigaf y bum ynddo erioed." Prin yw'r aneddau, a llawer o honynt yn adfeilion; ambell i lwyn gwannaidd yr olwg arno yma a thraw; llwydaidd yw gwyneb anwastad y ddaear, yr hon a gyfyd yn dra serth o ddyffryn y Dâf Fechan islaw i'r Bannau a godant eu pennau yn uchel yn yr awyr gryn bellter uwchlaw inni. Dyngarwr o'r radd flaenaf oedd yr hwn feddyliodd gyntaf am ddwyn reilffordd Aberhonddu a Merthyr drwy y lle, i dorri tipyn ar ei unigedd cyntefig. Drwy gyfrwng y reilffordd dygir y lle i gysylltiad mor agos a'r byd dynol a'i weithrediadau ag y mae hynny yn bosibl. Yn ystod yr ychydig fynydau y bum fel hyn yn taflu golwg dros yr olygfa ceisiwn ddyfalu pa fath le ydoedd cyn dyfodiad y reilffordd; a phrudd-unigedd oedd yr unig ddesgrifiad allwn feddwl am dano o'r darlun welwn—*extreme dreariness*. Ar ol ennyd o fyfyrdod, troais fy wyneb tua'r mynyddau. Yn fuan, delai clogwyn ar ol clogwyn i'm golwg, pob un o'r rhai a ymddangosai yn fawreddog i'r eithaf, a phob un o'r rhai hefyd a ddeffroent ynof deimladau tra gwahanol i'r rhai a'm meddiannent yng nghymydogaeth yr orsaf. Y ba fath gyfnewidiadau yn ansawdd y meddwl a'r teimlad y mae dyn yn agored—yn awr yn gweled dim ond yr ochr gyffredin, lwydaidd ar bethau, yr awr nesaf yn gweled yr ochr ramantaidd;

heddyw yn brudd, yfory yn llon; weithiau yn amheugar a digalon, brydiau eraill yn ffyddiog a bywiog; y fynyd hon yn ddall i ogoniant pethau, y fynyd nesaf yn fyw gan deimladau addoliadol. Cyfnewidiad o fath yr olaf fu'm profiad i yng nghwrs llai na dwy filltir—rhwng yr orsaf a'r man agosaf i'r Bannau yr aethum iddo. Wrth sylwi o honof ar y cribau mynyddog yn ymgodi uwch fy mhen, fe gyffrowyd yn fy mynwes deimlad o fawredd yr olygfa, ac fe'm tueddid naill ai i godi'm het neu i syrthio ar fy ngliniau fel arwydd allanol o'r teimladau addoliadol a'm meddiannent. Ni anturiais i ddringo i gopäau'r mynyddoedd; yr oedd yn rhy ddiweddar yn y dydd i wneud hynny; nid oedd ynof, ychwaith, yr ysbryd anturiaethus a ddesgrifir mor fyw gan Longfellow yn ei gân "*Excelsior*," a dychwelais, nid gyda'r gerbydres, ond ar draed. Trannoeth

CYFEIRIAIS FY NGHAMRAU TUA CHAERFFILI,

i weled cyfaill a'r castell. Bob cam o'r daith gwelwn arwyddion diderfyn o brysurdeb masnachol, a sylwn fel y mae dyn wedi llwyddo i ddarostwng natur a'i thrysorau i'w wasanaeth—gwybodaeth wedi ei gwneud yn llawforwyn i fuddiant y ddynolryw. Gwyn fyd na ellid dweyd yr un peth am wybodaeth yn gyffredinol; eithr ni ellir, oblegid y mae gwybodaeth mor aml wedi ei gwneud yn gyfrwng i ddyfeisio offer dinystr. Nid ar wybodaeth mae'r bai am hyn; mae'r bai i gyd ar ddyn pechadurus. Ar ol dod o honof i ben fy nhaith aethom—fi a'm cyfaill—tua'r hen gastell adfeiliedig. Mawreddog i'r eithaf ydyw, er yn adfeiliedig. Wrth sylwi arno, fe'm cludid yn ol ar edyn dychymyg amryw gannoedd o flynyddoedd, i'r adeg pan nad oedd tref Caerffili mewn bod, pan oedd y castell yn ganolbwynt bywyd cymdogaeth (ie, gwlad) eang; a delai rhyw fath ar feddyliau a'r hyn a ganlyn i'm mynwes: "Beth pe cawn gipolwg ar yr oll sydd wedi digwydd tu fewn a thu allan i furiau'r hen gastell hwn? Gwelwn, yn ddiau, lawer golygfa y byddai yn well imi fod heb eu gweled. Eithr, fe welwn hefyd, lawer o weithredoedd gwrhydrol—eiddo'r hen Gymry fuont yn dewr ymladd brwydrau rhyddid eu gwlad. Yn enwedig, gwelwn Owen Glyndwr, cryn dipyn o hanes cynhyrfus yr hwn sydd gysylltiedig â'r hen gastell; yr hwn, hefyd, fu'r olaf, o Dywysogion Cymru i wneud ymgais i adennill annibyniaeth ei wlad a gollwyd gyda marwolaeth Llywelyn. Ond y mae'r dyddiau hynny yn mhell yn y gorffennol, ac y mae'r hen gastell wedi colli ei ogoniant cyntefig; yr unig ogoniant a berthyn iddo yn awr yw gogoniant ei gyflwr adfeiliedig. Yr ydym ni, ddisgynyddion yr hen Gymry hyn, yn byw mewn heddwch a boddlonrwydd dan awenau teyrn heb fod o'n cenedl. Ond os yw'r ddelfryd y cadwai'r hen Gymry hyn eu golwg arni wedi colli eu diddordeb i ni, ai byw ynte marw yr ysbryd gwladgarol a'u meddiannai hwy—yr ysbryd a bair inni garu ein gwlad, a gweithio dros ei dyrchafiad." Yng nghwmni'r fath ar feddyliau a hyn y cefnais ar yr hen gastell, ac y dychwelais i'r fan y cychwynais o hono yn y boreu. Trannoeth, eto,

TELAIS YMWELIAD A'R FENNI.

Ar un ochr i'r gerbydres, fel yr aethum heibio i flaen un cwm ar ol y llall, gwelwn restrau diderfyn o dai, gyda mwg du y gweithfeydd yn esgyn yn dew i'r awyr; yr ochr arall, ni welwn ond y mynyddoedd llwydion, ac ambell i ddafad neu ferlyn yn prysur gasglu ei ymborth difaeth a phrin. Dyna'r fath ar olygfeydd dorrent ar fy llygaid hyd y daeth y gerbydres, yn ddirybudd i mi, i olwg dyffryn yr Wysg. Yn ddios, dyma un o'r golygfeydd arddunolaf y cefais y fraint o sylwi arni erioed—yr olygfa o ddyffryn yr Wysg a'r Fenni i'r lan yn nghyfeiriad Crughywel. Oes golygfa harddach na hon yn rhywle? Gwn am lawer dyffryn hardd—megis dyffryn y Deifi, o Lan-

ybyther i Lanbedr, neu ddyffryn y Dywi o Gaerfyrddin i Landeilo—golwg ar y rhai na all lai na swyno llygaid yr edrychydd. Ond dyma'r olygfa harddaf welais i – eto. Efallai fod dieithrwch yr olygfa yn ei gwneud yn fwy cyfareddol imi nag y byddai pe bawn yn fwy cyfarwydd â hi. Tra gwahanol i'w gilydd oedd y teimladau gyffrowyd ynof gan y tair golygfa wyf wedi cyfeirio atynt—y mynyddoedd cribog, y castell adfeiliedig, a'r dyffryn cwrteithiedig. Gan y mynyddoedd cyffroid ynof deimlad o ofn parchus (*a sense of awe*); y castell adfeiliedig a ddygai adref ataf wers ag y mae dyn mor dueddol i'w hanwybyddu, sef, mai dros amser y pery pob peth o wneuthuriad dynol; a chyffroai'r dyffryn cwrteithiedig ynof serch at y prydferth. Y mae i'r oll o'r teimladau hyn le pwysig yn natblygiad y cymeriad—yn enwedig y cyntaf a'r olaf. A da ydyw i ddyn gael ei adgofio, goreu i gyd po amlaf, mai dros amser y pery pob peth ond y cymeriad. Nid oes ond ychydig ganrifoedd er pan oedd y castell yn llawn o fywyd, ac yn gyfan; heddyw y mae ei ogoniant wedi diflannu; ac fe ddaw amser, yn ddiau, pan na adewir o hono faen ar faen. Ond fe erys y mynydd bannog a'r dyffryn prydferth: o leiaf, ni all dyn amgyffred amser pan na fyddant mwyach. O'm hymweliadau â'r lleoedd hyn, dychwelais i'm cartref cysurus yn nyffryn tawel, anwyl-wel, yn nyffryn y Grannell. I mi, wedi'r cyfan, nid oes ddyffryn fel hwn. "Er teithio mynyddoedd, llechweddau, a chymoedd . . . . 'does fan mor ddymunol . . . a chartref bach siriol cysurus." Dyna deimlad pob Cymro, onite? Nid oes le agosach at ei galon na'r dyffryn y magwyd ef ynddo. Gan nad pa mor bell yr â, gan nad pa mor swynol y golygfeydd, mae serchiadau tyneraf ei galon yn glymedig wrth ei gymydogaeth enedigol.

CRWYDRYN.

GWIR BRYDFERTHWCH.

Un o'r adeiladau prydferthaf yn Fenis, yr hon sydd ddinas o adeiladau prydferth, yw Eglwys Gadeiriol San Marco, ac fe adroddir stori ddyddorol am dani. Pan feddyliwyd, rai cannoedd o flynyddau'n ol, am adeiladu Eglwys Gadeiriol, fe benderfynwyd cyflogi'r adeiladydd gore yn yr holl fyd i dynnu'r cynllun. Nid oedd amheuaeth ar y pryd pwy oedd adeiladydd pennaf yr oes—dyn oedd yn cartrefi yn Constantinople. Aeth rhai o brif ddynion Fenis i Gonstantinople i chwilio am yr adeiladydd, ac i'w berswadio i adeiladu eglwys yn eu dinas hwy. Ond pan ddaethant i Gonstantinople, ac y gwelsant ef, fe'u synnwyd yn fawr, a daeth amheuaeth drostynt, pan welsant ddyn bach, salw, o'u blaen. O'r braidd y credent y gallai dyn bychan, salw, gynllunio'r math o eglwys oeddynt am gael. Eu dymuniad hwy oedd cael yr eglwys harddaf yn y byd, ac nid oeddynt yn chwennych gwneud camsyniad yn eu dewisiad o adeiladydd.

Fel yr oeddynt yn ymddiddan ag ef, teimlent ychydig yn fwy boddlawn. Ymddangosai'r dyn yn wahanol iawn pan yn siarad am adeiladau prydferth. Yr oedd mor frwdfrydig, ac yn siarad mor ddifrifol ynghylch ei waith, fel yr oeddynt bron anghofio ei fychander a'i salwineb. O'r diwedd gofynasant iddo a oedd yn meddwl

y gallai adeiladu'r eglwys gadeiriol brydferthaf yn y byd? Atebodd yntau ei fod yn sicr y gallai. Yna ceisiasant ganddo ddechreu ar unwaith, a pharotoi ei gynlluniau. Ar hynny daeth anhawsdra. Dywedodd ei fod yn barod i ymgymeryd a'r gorchwyl, ond ar un telerau yn unig. Fe adeiladai iddynt yr eglwys brydferthaf posibl, ond yr oedd yn rhaid iddynt osod cerflun o honno ef fel adeiladydd y tufewn i'r eglwys; ac ebe'r dynion mawr o Fenis na chlywodd clustiau neb y fath beth erioed. Buont yn dadleu, yn rhesymu, yn rhuo, ond oll i ddim pwrpas. Safai'r gwr bach yn gadarn. Os efe fuasai'n adeiladu'r eglwys, yr oedd yn rhaid iddynt adael i'w gerflun fod ynddi.

Fe ddychwelodd y dynion mawr i Fenis i awgrymu fod adeiladydd arall yn cael ei ddewis i wneud y gwaith. Ond nid oedd neb yn gwybod am adeiladydd digon da. O'r diwedd, dychwelasant i Gonstantinople i geisio gan y dyn bach eto i ymgymeryd a'r gwaith. A dywedir fod hyd y dydd heddyw, mewn cornel tywyll o Eglwys San Marco, ym mysg yr amrywiol bethau prydferth geir yno, gerflun bychan o'r dyn bychan, salw—y dyn ddarfu adeiladu'r Eglwws.

Ond os oedd yr adeiladydd yn salw ac o goiff aflunaidd, mae'r adeilad a gynlluniodd yn un o'r rhai rhyfeddaf yn y byd. Gall y rhan fwyaf o honom fod yn ddiolchgar nad oes raid ini fod yn hardd ac yn brydferth cyn y gallwn gyflawni pethau sydd yn brydferth. Ac nid yw o fawr pwys pa olwg sydd arnom, ond ini yn unig wneud yn dda. Y peth o bwys yw ein bod yn alluog i ddangos mewn gweithredoedd o gariad a daioni ein bod yn berchen ar galon a meddwl prydferth.

. . . . .

Pan ddadganodd rywun ei syndod pan welodd y fath edlych di-olwg oedd Dr. Watts—yr oedd wedi ffurfio meddwl mor wahanol am dano wrth ddarllen ei weithiau—atebodd y Dr. ef:

'Were I so tall to reach the pole,
And grasp the ocean in my span,
I must be measured by my soul,
The mind is the standard of the man!'

M.

ARHOLIAD YSGOLION SUL SIR ABERTEIFI, 1918.

Ychydig iawn o sylwadau wnaf eleni. Mae rhif yr ymgeiswyr wedi syrthio oddiar y llynedd o 184 i 85. Dyna gant namyn un. Daliodd Ysgol Capelybryn ei thir, ond yr oedd chwech ysgol heb un ymgeisydd o gwbl. A wna gweinidogion y Capeli hyn ddweyd ar dudalenau YR YMOFYNYDD eu rhesymau paham? Caem wybod drwy hynny pa un ai oddiar fwriad neu oddiar esgeulusdod y bu hyn? Mae yn anhawdd genyf gredu mai difaterwch oedd yr unig achos. Efallai mai diffyg *Maes pendant* mewn ffurf o holi ac ateb oedd wrth y gwraidd. O ganlyniad yr oedd argraff ar feddyliau yr arolygwyr a'r athrawon yn peri iddynt dybied nad oedd ganddynt syniad clir am yr hyn ddisgwylid iddynt ddysgu i'r plant. Teimlent eu hunain yn analluog i ffurfio cwestiynau priodol a boddhaol allan o'r maes. Pe gwnaent geisio

dysgu hanes Joseph heb feddwl o gwbl am arholiad, gwaethent hynny gyda llawer mwy o ddyddordeb a llwyddiant. Ond gan fod yna arholiad, yr oedd y gorchwyl yn newid ei ansawdd, ac yn ymddangos iddynt fel mynydd anferth heb weled eu ffordd yn glir pa fodd i'w ddringo. Os nad oedd y cynllun eleni y gore ellid ei fabwysiadu, carem i rywrai ddwyn cynllun arall all fod yn fwy llwyddianus i chwyddo rhif yr ymgeiswyr y flwyddyn nesaf. Rhaid i mi gyfaddef na chefais fy moddio eleni i'r un graddau a llynedd. Yr oedd un peth yn ddigon amlwg i mi ar unwaith, sef mai nifer fechan o'r ymgeiswyr yn Safon II. oedd wedi meistroli y wers yn drwyadl. Niwlog ar y cyfan oedd hanes Joseph ym meddyliau y mwyafrif, ac nis gallaf lai na phriodoli hynny i ryw ddiffyg o du yr athrawon. Felly mae eisiau rhagor o ymdrech o du yr athrawon yn y dyfodol. Credaf pe gwnae ein gweinidogion ymweled a'r Ysgolion Sul yn achlysurol y gwnae hynny les dirfawr. Hefyd da fyddai sefydlu gwell cysylltiad rhwng yr Ysgol Sul a'r gynulleidfa. Dylai yr Ysgol Sul a'r gynulleidfa fod bron yr un—hynny yw, dylai bron yr oll o aelodau y gynulleidfa fynychu yr Ysgol Sul. Sut y mae yn bresennol? Nid yw mwyafrif yr aelodau yn meddwl fod eisiau iddynt hwy wneud dim ond dod i'r cwrdd yn achlysurol. Gwir yr anfona y rhan fwyaf o'r rhieni eu plant i'r Ysgol Sul yn weddol gyson, eithr disgwyliant fod yno rywrai ereill yn eu dysgu hwynt, ac nid ystyriant fod angen am eu cynorthwy *hwy* gyda'r gwaith da. A yw yr oll o'r gweinidogion yn gwneud ymdrech dyladwy i geisio sicrhau gwelliant yn y cyfeiriad hwn, sef cael y gynulleidfa i fod yn fwy mewn *touch* a'r Ysgol Sul? Nid wyf yn dweyd fod ein gweinidogion yn pregethu gormod, ond credaf y gallent, ac y dylent, gyfundrefnu mwy. A yw yn ormod i awgrymu i rai o honynt y sylw hwn?—*Preach less and organise more!* Yr wyf dipyn yn hyf, ond felly fy nghred. Y mae dylanwad y gweinidogion ar y cynulleidfaoedd yn fawr, a hir y parhao felly; gan hynny, carem iddynt wneyd mwy o ymdrech i berswadio rhagor o'r aelodau i gymeryd rhan gyda'r Ysgol Sul, er chwyddo nifer yr ychydig athrawon ffyddlon ydynt yn llafurio yn gyson a dibaid i addysgu y plant o flwyddyn i flwyddyn. Mor lleied yw rhif y llafurwyr diflin hyn!

J. R. THOMAS, C.M.

Pontsian.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.

Cynhaliwyd y Gymanfa Flynyddol hon yn Soar, Llanbedr, trwy garedigrwydd yr eglwys a'r gweinidog. Ofnem, weithiau, y gallasai y rhyfel fod wedi tori ar draws ein cynlluniau, ac i fod yn rhwystr i ni gynnal y gymanfa eleni. Y mae nifer gynhyddol o'n bechgyn arferent fod yn cymeryd rhan flaenllaw yn yr wyl yn absennol, ac y mae meddyliau prydferus y rhan fwyaf ohonnom ni sydd ar ol gyda hwy; ofnem y gallasai hyn fod yn ddigon i dori ar draws ei llwydd, os nad ei thrangc, am dymhor, o leiaf. Siomwyd y mwyaf gobeithiol o honnom ar yr ochr oreu. Yr oedd y cynnulliadau yn dda, y canu yn wresog a gafaelgar, ac ysbryd y

peth byw yn cael ei deimlo ar hyd y dydd. Y mae gennym achos diolch, ac i gymeryd calon fod pethau wedi troi allan mor llwyddiannus. Bu'r tywydd yn garedig iawn wrthym, ac ymddangosai pawb ar eu goreu. Yr arweinydd appwyntiedig ydoedd Mr. Thomas Thomas, Green Grove, Talgarreg. Y mae rhai o honnom yn gwybod am y gwasanaeth hir a ffyddlon y mae wedi roddi gyda'r gân yn Mwlchyfadfa. Yr oedd ef yn arweinydd canu yno pan oedd y rhan fwyâf o honnom yn fabanod sugno. Anrhydeddodd y gymanfa ei hunan wrth ei ddewis ef yn arweinydd. Gwnaeth ei waith yn y *rehearsals* ac yn y gymanfa yn ganmoladwy—yr oedd fel efe ei hun.

Dechreuwyd cyfarfod y bore gan y Parch. Arthur Thomas, a gwnaeth y llywydd, y Parch. David Evans, Cribyn, annerchiad pwrpasol iawn. Adgofiodd ni oll o'n dyledswydd tuag at y plant, a'r gofal ddylasem gymeryd ohonynt. Yr oedd cwrdd y bore wedi ei neillduo yn gyfangwbl i'r plant, cynllun, gobeithio, na chyll y pwyllgor ei olwg arno. Cynllun rhagorol hefyd ydoedd cael gan blant y gwahanol eglwysi i adrodd yr emynau cyn eu canu. Adroddent yn ddealladwy ac effeithiol. Ac ystyried fod cyfleusderau teithio eleni yn brin, yr oedd yn dda gennym weled nifer mor dda o blant wedi dod ynghyd. Yr oedd ansawdd tonau y plant yn uchel, a deil y rhai hyn mewn bri am lawer blwyddyn.

Yn y prydnawn dechreuwyd y cwrdd gan yr Hybarch John Davies, Alltyplaca, drwy ddarllen a gweddio. Yn absenoldeb y llywydd apwyntiedig, sef y Dr. Thomas Evans, M.O.H., Abertawe, dewiswyd i lanw ei le Inspector Thomas, Ferndale. Cafwyd ganddo yntau eiriau pwrpasol iawn. Er nad yn gerddor, dywedai am ddylanwad yr hen dônau a'r hen emynau ar ei ysbryd, ac wrth derfynu gofynodd i'r dorf ganu "Crugybar," ar y geiriau "O fryniau Caersalem," yr hyn wnawd gydag arddeliad. Canwyd amryw dônau o'r rhaglen a'r ddwy anthem: "Gwyn fyd a ystyria wrth y tlawd" (Owain Alaw), a "Gwyn eu byd y meirw" (J. Edwards). Un nodwedd arbennig yng nghyfarfod y prydnawn ydoedd chwareuad meistrolgar a theimladwy Mr. Richard Howell, yr Organydd, o'r "Dead March," er cof am ein bechgyn wnaethant yr aberth fawr yn y rhyfel hwn. Dygodd nodau cwynfanus yr Organ lawer gwyneb siriol i'n meddwl; syrthiodd aml i ddeigryn gloew dros y rudd, a chododd ochenaid o'r galon wrth gofio y rhai hyn.

Yng nghyfarfod yr hwyr dechreuwyd gan y Parch. Lewis Williams, a llywyddwyd yn ddeheuig gan Mr. Charles Evans, Y.H., un o ddiaconiaid eglwys Soar. Teimlem yn ddiolchgar i Mr. Evans am ei eiriau caredig a'i ysbryd brawdol, yr hyn oedd yn arwydd i ni o'r ysbryd ymha un y gwnaeth yr eglwys roddi benthyg eu capel, nid am y waith gyntaf, a gobeithio, nid am y waith ddiweddaf. Cafwyd canu ardderchog eto yng nghyfarfod yr hwyr. Gorffennwyd y Gymanfa. Teimlai pob un wrth ymadael mai da oedd bod yno. Colled fawr i'n cyfundeb bychan fyddai peidio cynnal y gymanfa am un flwyddyn. Hir y parhao i fod yn allu ac yn ddylanwad yn ein plith. Carem longyfarch y pwyllgor, ac yn enwedig y swyddogion ar y trefniadau wnawd yn ystod y dydd, ac o gael organydd mor ardderchog a Mr. Richard Howell, Aberdar. Cymerwyd rhan yn y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchn. E. O. Jenkins, T. Oswald Williams, R. C. Jones, ac Evan Evans, gweinidog Soar.

PRIODAS.

MAI 21, yng Nghapel Cwmdwyfran (M.C.), ger Caerfyrddin, gan y gweinidog, y Parch. S. Evans, Mr. Frank Herbert, Llanbedr, â Miss Lizzie Stephens, Gwili View, Bronwydd Arms. Y bendithion goreu ddilyno'r uniad.

MARWGOFION.

MAWRTH 31, yn 24 mlwydd oed, Private James Llewellyn Davies, R.A.M.C., ail fab Mr. a Mrs. Davies, Derlwyn, Treherbert, Llanbedr, ar faes y gad. Gwnaeth ei ran i weini ar y clwyfedig, ac aberthodd ei hun yn yspryd Florence Nightingale ac yn yspryd Iesu. Bu allan am ysbaid hir, ac nid oedd ond prin ddeufis er iddo ymweled â ni, ond heddyw, yn 'Rhywle yn Ffrainc'

'Erys a chroes uwch ei ro.'

Y mae un brawd arall yn gwylio'r moroedd ar y gad-long "Bellerophon." Gadawodd dad a mam, pedwar brawd, a dwy chwaer, i wylo am frawd ieuanc tyner a mwyn. Ar hwyr Sul, Mehefin 23, am saith o'r gloch, cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo yn Eglwys Brondeifi, a chyfeillion o bob enwad yn cyduno yn ei goffa, pan bregethwyd gan y gweinidog, y Parch. T. O. Williams, B.A., oddiar y geiriau, 'Ein gwyr ieuainc gan syrthio a syrthiant,' 'Pa hyder yw hwn yr wyt yn ymddiried ynddo?'

EBRILL 21, yn 52 oed, Mary, anwyl briod Thomas Davies, Cilmaengwyn, Ynysmeudwy. Dyma chwaer arall wedi dod i ben y llwybr adref. Ni theithia yn unig, eithr y mae ganddi gwmni, a chwmni dyddan. Trosglwyddwyd hi o lwybr y boen a'r dioddef i lwybr ei chwmni goreu—Iesu Grist. Efe ydyw "y ffordd" Nid llwybr heb y teithiwr amlwg, cynorthwyol. "Deuwch ar fy ol i"—dyna yr anogaeth a flina Gristionogion y broffes. Awn ymlaen nes dod o hyd i'r weledigaeth a bair i ni i agor ein llygaid, ac i graffu ar ysblander llwybr Iesu Grist, ac ni raid i ni wedyn ofni. Dim ond y byd sydd yn peri i ni ofni. Os cawn deithio gydag Ef, diogel fyddwn yn y nef. Gedy ein chwaer ar ol i alaru, gydmar, tair merch, a bachgen yn Ffrainc. Claddwyd dydd Sadwrn, Ebrill 27, wrth Eglwys Sant Mair, Ynysmeudwy. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. G. Rees, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. T. W. Davies (E.)

MAI 27, ar faes y frwydr yn Ffrainc, syrthiodd y brawd ieuanc, Private Dan Jones, unig fab Mr. a Mrs. Jenkin Jones, 57 Woodland Street, Smethwick, Birmingham, ac wyr i'r diweddar Daniel a Hannah Jones, Awelfa, Bwlchyfadfa. Nid oedd yr ymadawedig ond deunaw mlwydd a chwe' mis oed. Ymunodd a'r fyddin yn mis Hydref diweddaf, a'r mis Mawrth dilynol anfonwyd ef allan i faes y gad. Rhoddir iddo air da ac uchel gymeradwyaeth gan ei swyddogion a'i gyfeillion. Pan

yn brwydro yn galed gyda'r Lewis Gun y dydd uchod, clwyfwyd ef yn angeuol gan *shell* o du'r gelyn. Claddwyd ef mewn *cemetery* fechan Brydeinig gerllaw Brandhock, pryd y talwyd y gymwynas olaf iddo gan nifer o'i gymdeithion. Estynnir y cydymdeimlad llwyraf i'w rieni a'i chwaer yn eu profedigaeth lem.

MAI 28, John Jones, Ffactri Crugyreryr, Talgarreg, yn 83 oed. Ganwyd yr ymadawedig yn Felin Clettwr, Pontshan. Yn ystod ei oes faith—pe buasai wedi cael byw un diwrnod yn rhagor, buasai wedi gweld ei 83 pen blwydd—bu'n byw mewn llawer o fannau — Penrhiw, Crugyreryr, Moelhedog, Rhydsais—ond gan mai yn Rhydsais y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, wrth yr enw John Jones, Rhydsais, yr adnabyddid ef yn fwyaf cyffredin. Wyth mlynedd yn ol collodd ei briod—Sally Rhydsais—a symudodd yntau i Ffactri Crugyreryr i dreulio gweddill ei ddyddiau ar aelwyd ei ferch a'i fab-yng-nghyfraith. Wrth ei golli ef, collodd Eglwys Bwlchyfadfa bron yr olaf o'r hen ffyddloniaid fu'n cadw'r achos i fyny'n yr hen gapel. Mae cynulleidfa'r Bwlch wedi bod yn nodedig am ei ffyddloniaid ar hyd y blynyddoedd, a hyfrydwch mawr iawn yw gwrandaw ar rai o'r bobl hynaf sydd yma'n awr yn mynd dros enwau a hanes y ffyddloniaid oedd yma 30 a 40 a rhagor o flynyddau yn ol. Mor ardderchog oedd eu llafur a'u hymdrechion gyda'r Ysgol Gân, yr Ysgol Sul, a phobpeth perthynol i'r achos. Mor fawr yw ein dyled i'r rhai hyn. Hwynthwy fu'n adgyweiriio'r hen gapel; yn prynu a threfnu ein mynwent hardd. Hwynthwy lafuriodd i gael yr elorgerbyd, a llu o bethau ereill ag sydd yn ein meddiant heddyw. Llafuriasant yn rhyfeddol gyda'r canu, a threuliasant gannoedd o nosweithiau pleseraidd i'r eithaf wrth geisio dysgu ambell dôn ac anthem. "Ereill a lafuriasant, ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt." Yn llechres ffyddloniaid y Bwlch saif enw y diweddar John Jones yn amlwg. Boed i'w fantell syrthio ar ei blant a'i wyrion, a boed i'w yspryd ef a'r "hen ffyddloniaid" aros yn y gynulleidfa fyth. Gadawodd un ferch, tri mab, nifer luosog o wyrion a pherthynasau ereill mewn galar. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E O. Jenkins a T. A. Thomas.

MAI 29, yn 73 oed, Margaret Timothy, Ty'r Capel, Bwlchyfadfa, gan adael merch, mab-yng-nghyfraith, dau wyr, chwaer, a nifer luosog o gymydogion a chyfeillion mewn hiraeth ar ei hol. Yr oedd hi, fel y Justus hwnnw y sonir am dano yn llyfr Actau'r Apostolion, a'i thŷ "yn cyffwrdd a'r Synagog," ac fel efe hefyd yn "un oedd yn addoli Duw." Bu'n byw yn y Ty Capel ac yn gofalu am yr hen gapel—ac er yr adeiladwyd ef, y newydd hefyd—am y cyfnod maith o 30 o flynyddoedd. Tŷ pwysig yw'r Tŷ Capel, a mantais fawr iawn i gynulleidfa yw cael un gymwys, gymeradwy i fyw ynddo. Deallwn fod cynulleidfa'r Bwlch wedi bod yn hynod ffortunus yn hyn o beth ar hyd y blynyddoedd. Mae wedi llwyddo i gael rhai addas a chymwys i'r alwedigaeth bwysig o gadw'r Capel a'r Tŷ Capel, ac un o'r mwyaf cymhwys a ffyddlon o honynt oedd y diweddar Margaret Timothy. Cadwodd ef yn anrhydeddus; yr oedd fel pe wedi ei thorri i'r gwaith, ac yn ddiameu meddai ar y "ddawn werthfawr a phrin o gadw'r Tŷ Capel." Gellir dweud am dani, "Da forwyn, da a ffyddlawn." Erbyn hyn mae ei lle yn wâg—hyd yma mae y tŷ yn wâg—a gwyddom mai chwythig yw gan lawer i feddwl na chânt ei chwmni ar yr aelwyd fach byth mwy, ac na chânt air ffraeth, disymwth o'i genau. Er hynny, bydd yr adgofion am dani yn felus. Claddwyd y Sadwrn canlynol ym mynwent y Bwlch, a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas.

"Mae'n felus meddwl, eto 'nghyd,
Cawn gwrddyd yn y nef."

MEHEFIN 3, Enoch, mab anwyl i Benjamin a Mary Jones, Cwmbach, Cwrtnewydd, yn 22 oed. Gadawodd dad, mam, brawd, dwy chwaer, a nifer luosog iawn o berthynasau ereill a chyfeillion mewn galar dwys o'i golli. Pwy, a'i adwaenai, allasai beidio wylo wrth golli un mor gu, un ag oedd mor fawr ei barch ac mor anwyl gan bawb a ddaethant i gyffyrddiad ag ef? Yr oedd yn fachgen ieuanc o rodiad prydferth, un glân ei iaith, addfwyn ei dymher, un na flinid ar ei gwmni. Er's rhai blynyddau, gweithiai yn un o byllau glo Ferndale, a chartrefai gyda modryb iddo—chwaer ei fam—a'i phriod, i ba rai yr oedd yn anwyl, megis mab. Nid ymfoddlonai ar fod yn weithiwr cyffredin, ond ymegniai at fod yn swyddog yn y gwaith. Yr oedd wedi pasio rhai arholiadau eisoes, a phe ca'i fyw diameu yr enillai iddo ei hun safle bwysig ac anrhydeddus. Drylliwyd ei gynlluniau a chwalwyd gobeithion llawer un am dano, ac wele ef yn ngwanwyn ei ddyddiau wedi rhoi ffarwel. Cydymdeimlir yn fawr a'i rieni a'r teulu—nid oes tair blynedd wedi pasio oddiar pan gollasant ferch ieuanc anwyl o'r blaen. Yr oedd Enoch Jones yn aelod ffyddlawn yn Bwlchyfadfa; er hynny, pan yn Ferndale, mynychai yn gyson y gwasanaeth crefyddol a'r Ysgol Sul yng Nghapel yr Annibynwyr yno. Darllenwyd llythyr oddiwrth weinidog yr Eglwys honno, y Parch. J. Bryn Thomas, ddydd ei angladd—llythyr yn dwyn tystiolaeth i'w gymeriad da a'i ffyddlondeb gyda chrefydd. Daeth amryw blethdorchau *(wreaths)* o gyfeiriad Ferndale i'w gosod ar ei fedd. Daeth hefyd ddau o'i gyfeillion ieuainc oddiyno i dalu eu teyrnged o barch i'w goffadwriaeth. Y Gwener canlynol daeth torf luosog ynghyd i hebrwng ei weddillion i fynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethodd y Parch. E. O. Jenkins.

"Peace, peace, he is not dead; he doth not sleep,
He hath awakened from the dream of life."

MEHEFIN 9, cynhaliwyd Gwasanaeth Coffadwriaethol yn Bwlchyfadfa i'r diweddar Johnnie Owen Thomas, bachgen ieuanc a fagwyd er yn faban bychan, gan y diweddar Mrs. Anne Evans, Felin-Crugyreryr, Talgarreg, a'i merch, Mary (Mally) Evans, yn awr o Llaindelyn, Talgarreg. Saer oedd Johnnie wrth alwedigaeth, ac er's dros ddwy flynedd yr oedd yn saer ar fwrdd llong. Collodd ei fywyd dydd Llun, Ebrill 29, drwy i'w long S.S. "Australia," daro yn erbyn *mine* neu i un o *submarines* y gelyn ei suddo, a hynny pan o fewn i wyth milldir i dir y wlad hon. Collodd ef a phedwar arall eu bywydau—suddodd y llong tra ef yn ei wely yn cysgu. Nid oedd ond 20 oed. Diflasodd yr ardal i gyd pan ddaeth y newydd trist am dano, a llanwyd hi gan gydymdeimlad tuag at y rhai oeddynt wedi eu cyd-fagu ag ef ar aelwyd y Felin, a'r rhai edrychent arno bob amser fel brawd—yn enwedig a Mary Evans, Llaindelyn, yr hon fu'n chwaer a mam iddo. Yr oedd Johnnie yn fachgen ieuanc a hoffid gan bawb o'i gydnabod—un distaw a didwyll, a lled hoff o ddifyrwch diniwed. Cyn gadael ei gartref yr oedd yn un o ffyddloniaid ieuainc Bwlchyfadfa, ac anfynych iawn y byddai ei le yn wâg yn yr Ysgol Sul. Yr oedd y Capel yn orlawn ar y Sul uchod—pobl wedi dod o bell ac agos i ddangos eu cydymdeimlad ac i dalu parch i goffadwriaeth un arall a gollodd ei fywyd yng ngwasanaeth ei wlad. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Da oedd genym weled nifer mor luosog o bobl ieuainc yn bresenol. Gwyn fyd os bu y gwasanaeth yn help i rai o honynt i ailgyssegru eu bywyd i Dduw a daioni. Ar derfyn y gwasanaeth chwareuwyd y "Dead March" gan organyddes y lle, Miss Ellen Thomas, Greengrove,

MEHEFIN 22, yn 46 oed, Evan Jones, Tycanol, Gelligron, Pontshan (Evan Jones, Pengelli) gan adael priod, dau blentyn, mam a pherthynasau ereill mewn galar ar ei ol. Dyn cadarn yr olwg arno, a chadarn ei gyfansoddiad oedd yr ymadawedig—un y byddai pawb a'i hadwaenai yn rhoi blynyddoedd lawer iddo i fyw yn y byd, ond wele ef wedi mynd yn nghanol ei ddyddiau, a ninnau'n cael ein hadgofio o'r newydd mai yn yr awr na thybiwn y daw'r alwad. Bu'r ymadawedig am flynyddoedd meithion ar wasanaeth yn masnachdy Pontshan, ond yn ddiweddar gweithiai fel glowr yn Nghlydach Vale. Rhyw bythefnos cyn ei farw daeth adref yn anhwylus, ond ni feddyliodd neb fod y diwedd mor agos. Ymhen dau neu dri niwrnod bu raid iddo fynd i'w wely, a chael gwasanaeth meddyg, ac ar y boreu uchod bu farw yn sydyn ac anisgwyliadwy. Dyn a gwên ar ei wyneb bob amser oedd Evan Jones. Dyn parod ei gymwynas, a dyn hoff rhyfeddol o'i blant. Cydymdeimlir yn fawr a'r teulu yn eu galar. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Carmel, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, ac Arthur Thomas.

MEHEFIN 24, yn 16 mlwydd oed, Edward Alfred, anwyl fab Edward ac Eleanor Davies, Gelli, Talsarn. Gwanaidd fu iechyd y bachgen ieuanc hwn er ys tro. Tra ar ymweliad a'i frawd yn Ferry Side yr ehedodd ei ysbryd at yr hwn a'i rhoes ef. Y dydd Iau dilynol dygwyd ei gorff a rhoddwyd ef i orffwys yng nghladdfa'r teulu, ym Mhantdefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins.

[O ddiffyg gofod, gorfodwyd ni adael allan o'r rhifyn hwn y Manion, ac amryw ysgrifau dyddorol. Cánt ymddangos yn ein nesaf.—Gol.]

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

CYNHELIR

Cyfarfodydd ❀ Blynyddol

:: Y GYMDEITHAS YNG ::

— NGHAERONEN —

Ar DDYDDIAU MAWRTH a MERCHER, AWST 6 a 7, 1918.

Bydd y trefniadau fel y canlyn :—

Hwyr Mawrth, Awst 6, am 7 o'r gloch, { yng NGHAERONEN, Gwasanaeth a Dwy Bregeth. yn BRONDEIFI, Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Mercher, Awst 7, am 10 o'r gloch Pwyllgor y Gymdeithas.
" " " 2 o'r gloch—Anerchiad y Llywydd a Phregeth.
" " " 6 o'r gloch Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

Eternal Life Here and Hereafter. By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £24,906,432. Paid up Capital .. £5,188,840.

Reserve Fund .. £4,342,826.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1917.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz:—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,075,536 Shares of £12 each ..	5,188,840	0	0
,, Reserve Fund	4,342,826	0	0
,, Dividend payable on 1st February, 1918	350,246	14	0
,, Balance of Profit and Loss Account as below	733,785	5	8
	10,615,697	19	8
,, Current, Deposit & other Accounts	220,551,768	9	5
,, Acceptances on account of Customers	8,826,865	17	6
	£239,994,332	6	7

				£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England				44,110,353	13	10
,, Money at Call and at Short Notice				31,003,560	9	2
,, Investments:—						
War Loans, at cost (of which £408,418 10s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..				33,116,534	13	6
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures				181,789	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..				1,774,673	4	2
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds				660,352	18	0
Sundry Investment				521,463	5	10
,, Bills of Exchange				35,052,991	17	10
				146,421,719	12	4
,, Advances on Current and other Accounts ..				68,510,358	1	9
,, Advances on War Loans				12,645,539	9	0
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..				8,826,865	17	6
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..				2,837,210	6	0
,, Belfast Bank Shares:—						
49,688 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid						
148,204 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid						
Cost	£1,225,908	0	0			
Less part Premium on Shares issued ..	478,269	0	0			
				752,639	0	0
				£239,994,332	6	7